**Modelau goruchwylio ac enghraifft asesu:**
**Tîm Bydwreigiaeth Cymunedol**

## Lleoliad Ymarfer: Tîm Bydwreigiaeth Cymunedol

### Senario: Myfyriwr yn gweithio mewn Tîm Bydwreigiaeth Cymunedol

Mae tîm bydwreigiaeth cymunedol, Geni, yn rhoi gofal cyn geni ac ôl-enedigol i bobl feichiog sy'n byw yng nghanol dinas fawr. Mae'r bwrdd iechyd yn rhoi Gofal Mamolaeth i 6,500 o enedigaethau bob blwyddyn, gan gynnwys gwasanaeth geni gartref dan arweiniad bydwragedd cymunedol. Caiff anghenion y defnyddwyr gwasanaeth eu hasesu gan y tîm er mwyn sicrhau'r gofal mwyaf priodol a diogel, yn ôl canllawiau'r Bwrdd Iechyd a dymuniadau'r unigolyn beichiog.


Mae'r tîm yn un mawr sy'n cael ei reoli gan Arweinydd Tîm Cymunedol, sy'n gweithio mewn lleoliad ysbyty. Mae pob bydwraig cymunedol yn gweithio gyda meddygfa benodol, ac yn y feddygfa, byddant yn cynnal eu clinigau cyn geni ac yn mynd ar ymweliadau ôl-enedigol hyd at 28 diwrnod ar ôl i rywun roi genedigaeth.

Mae'r tîm yn cydweithio gyda'i gilydd a thîm ehangach sy'n cynnwys bydwragedd arbenigol (megis diogelu a bwydo babanod), Gweithwyr Cymorth Mamolaeth, Meddygon Teulu, Ymwelwyr Iechyd, staff sy'n gweithio mewn ysbytai (Bydwragedd, Obstetryddion, Anesthetyddion) ac elusennau a grwpiau eirioli. Gan fod y tîm mor fawr, maen nhw'n derbyn sawl myfyriwr bydwreigiaeth o'r un garfan ar yr un pryd.

Mae Margot, myfyriwr bydwreigiaeth yn ei hail flwyddyn, yn cael lleoliad wyth wythnos gyda thîm Geni. Dyma ail leoliad Margot ers dechrau ar yr ail flwyddyn o'r rhaglen Bydwreigiaeth yn y brifysgol gyfagos. Mae llawer o aelodau tîm Geni yn gweithio ar sail rhan amser, felly mae gan Margot ddwy oruchwylydd ymarfer dynodedig – Nadiya a Lois. Mae'r ddwy wedi cyflawni Hyfforddiant Paratoi Goruchwylwyr Ymarfer Cymru Gyfan, gan fodloni'r safonau gofynnol. Mae Asesydd Ymarfer, Hannah, hefyd yn cael ei phenodi. Roedd Hannah yn fentor profiadol, ond mae hi newydd gyflawni hyfforddiant Asesydd Ymarfer er mwyn deall y newidiadau i oruchwylio ac asesu myfyrwyr a gyflwynwyd yn ddiweddar yn y Safonau ar gyfer Goruchwylio ac Asesu Myfyrwyr (SSSA) (NMC 2018).

Mae Margot, Nadiya a Lois wedi trefnu cyfnod ymsefydlu Margot ar y profiad dysgu ar leoliad, gan gynnwys ble i gwrdd â hi ar ei diwrnod cyntaf a sut i gael mynediad i becynnau gwybodaeth i fyfyrwyr. Bydd Margot yn pennu amcanion dysgu ac yn eu nodi yn y Contract Dysgu ar Leoliad yn y Ddogfen Asesu Ymarfer Bydwreigiaeth (MPAD) er mwyn trafod â Nadiya ar eu diwrnod cyntaf gyda'i gilydd. Mae Margot yn gwybod mai Hannah yw ei Hasesydd Ymarfer (sy'n ofynnol ar gyfer pob rhan o'r rhaglen neu leoliad) ac mae ganddi ei manylion cyswllt. Bydd angen i Nadiya a Lois gwblhau asesiad ffurfiannol ar ddiwedd y lleoliad. Does dim angen i Hannah fod ynghlwm oni bai bod pryderon ynghylch cynnydd Margot. Gall Hannah gefnogi Margot, Nadiya a Lois lle bo angen.

Model goruchwylio:




Mae Margot yn ymuno â naill ai Nadiya neu Lois drwy gydol y lleoliad, gan ennill profiad helaeth o ofal bydwreigiaeth yn y gymuned. Mae'r ddwy fydwraig cymunedol yn ymwybodol o amcanion Margot, ac wedi trafod ymysg ei gilydd i sicrhau bod cyfleoedd ar gael i'w bodloni.

Weithiau mae Margot wedi cael cyswllt ag aelodau eraill o'r tîm i ehangu ei phrofiadau pan nad oedd Nadiya a Lois yn gweithio. Gall bob cofrestrydd fod yn oruchwylydd ymarfer, felly mae defnyddio SSSA yn galluogi myfyrwyr i weithio ag aelodau eraill o'r tîm.

Y myfyrwyr sy'n arwain addysgu ond gyda chymorth Nadiya a Lois, mae Margot wedi trefnu i dreulio amser gyda'r Bydwraig Diogelu a'r cydlynydd Bwydo Babanod. Mae'r bydwragedd hyn wedi rhannu adborth am berfformiad Margot â Nadiya a Lois ar gyfer yr asesiad ffurfiannol.

Mae pob aelod o'r tîm sydd wedi goruchwylio Margot yn rhannu adborth â Nadiya a Lois. Does dim pryderon wedi codi, ac felly does dim angen mewnbwn Hannah a Holly (Asesydd Academaidd Margot) ac felly gall Nadiya neu Lois gyflawni asesiad ffurfiannol Margot. Caiff yr asesiad ei gofnodi yn yr MPAD, a gall Margot symud ymlaen i'r profiad dysgu ar leoliad nesaf.

Cyfleoedd dysgu ychwanegol:

Yn ystod y drafodaeth gychwynnol ac wrth ddewis amcanion ar gyfer y contract dysgu ar leoliad, soniodd Margot am sawl cyfle gyda chefnogaeth Nadiya a Lois. Roedd y rhain yn cynnwys y canlynol:

- Arwain trafodaethau yn ystod ymweliadau ôl-enedigaeth yn enwedig yn ystod yr ymweliad cyntaf.

- Llenwi gwybodaeth cadw lle yn y Cofnod Mamolaeth Cymru Gyfan, gan ddatblygu sgiliau asesu risgiau a llwybrau gofal.

- Treulio amser gyda Bydwragedd Arbenigol – Diogelu, Bwydo Babanod, Camddefnyddio Sylweddau, Ceiswyr Lloches, gan fynd i unrhyw glinigau maen nhw’n eu cynnal.

- Mynd i glinigau galw heibio ar Fwydo Babanod, datblygu sgiliau creu cynlluniau bwydo ar y cyd â rhieni.

- Gweithio shifftiau ar ddyletswydd ar gyfer genedigaethau gartref.

- Arwain mewn lleoliad clinig cyn geni.

- Atgyfeirio at weithwyr proffesiynol eraill lle bo angen.